

# Arolygu Cymru

## Mynegi Pryderon am gyrff cyhoeddus Cymraeg



Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales



# Sut mae mynegi pryder am ddrwgweithredu os ydych chi'n gweithio yn y sefydliadau canlynol:

- GIG Cymru;
- Awdurdod lleol, gan gynnwys ysgol neu sefydliad gofal cymdeithasol;
- Awdurdod yr heddlu neu dân;
- Llywodraeth Cymru neu gorff cysylltiedig.

Mae'r daflen hon yn esbonio sut y gall rhywun sy'n gweithio yn un o'r cyrff uchod fynegi pryder am ddrwgweithredu, y cyfeirir ato hefyd fel chwythu'r chwiban, wrth bartneriaid Arolygu Cymru.

## Manylion am Arolygu Cymru

Mae Arolygu Cymru yn rhaglen o weithio ar y cyd rhwng:

- Yr Archwilydd Cyffredinol a [Swyddfa Archwilio Cymru](#);
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ([AGGCC](#));
- [Estyn](#) – Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru; ac
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ([AGIC](#)).

Ein nod ar y cyd yw cefnogi'r broses o sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer pobl, gan geisio diogelu eu lles bob amser trwy adrodd heb ofn na ffafriaeth ar y gwasanaethau cyhoeddus sy'n dod o fewn ein cylch gwaith. Trwy weithio gyda'n gilydd yn effeithiol, gellir cynyddu'r effaith a gawn ar gyfer pobl.



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales



# Yr hyn a olygwn wrth Chwythu'r Chwiban

Chwythu'r Chwiban yw'r term a ddefnyddir pan fydd rhywun sy'n gweithio mewn sefydliad neu i sefydliad yn dymuno mynegi pryder er lles y cyhoedd ynghylch unrhyw ddrwgweithredu megis diogelwch claf, diogelu, camymddwyn ariannol, perygl, anghyfreithlondeb, neu geisio cuddio unrhyw un o'r rhain. Gall chwythu'r chwiban fod yn berthnasol wrth fynegi pryder o fewn y sefydliad yn ogystal â'r tu allan iddo, megis wrth aelod o Arolygu Cymru.

Mae Chwythu'r Chwiban yn wahanol i gwyno neu achwyn. Yn gyffredinol, mae'r term 'chwythu'r chwiban' yn berthnasol pan fyddwch chi'n dyst i gamymddwyn neu drosedd a bod hynny'n fygythiad i bobl eraill. Ystyr achwyn yw pan fydd cyflogai'n mynegi anghydfod ynghylch ei swydd ei hun. Os oes gennych chi gwyn fel cyflogai, rydym yn argymhell eich bod yn cyfeirio at eich gweithdrefnau lleol. Os ydych chi'n pryderu am ddrwgweithredu, cysylltwch ag un ohonom ni.

Cyflwynwyd Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (PIDA) i amddiffyn gweithwyr sy'n poeni am ddrwgweithredu yn eu man gwaith ac sydd eisiau i rywun ystyried eu pryderon. Mae PIDA yn berthnasol i'r rhan fwyaf o weithwyr ac yn cynnwys y rheini sy'n cael eu cyflogi trwy asiantaeth neu dros dro. Gall cyflogai sy'n cael ei erlid, neu y camwahaniaethir yn ei erbyn mewn unrhyw ffordd am iddo 'chwythu'r chwiban' (a elwir yn gyflwyno datgeliad gwarchoddedig), fynd â'i gyflogwr i dribiwnlys cyflogaeth a cheisio iawndal.

Yn gyffredinol, mae gan weithiwr yr hawl i gael ei amddiffyn rhag niwed pan mae'n mynegi pryder wrth ei gyflogwr, ei reoleiddiwr (y cyfeirir ato fel Person Dynodedig o dan PIDA) ac yn ehangach gyda'r wasg, y cyfryngau ac Aelodau Seneddol. Mae'n rhaid i'r datgeliad fod er lles y cyhoedd ac mae gofynion eraill o ran diogelwch wrth fynegi pryder y tu allan i sefydliad y cyflogwr.

# Rôl Arolygu Cymru yn y broses Chwythu'r Chwiban

Mae pob un ohonom yn Arolygu Cymru yn credu y dylai'r cyrff cyhoeddus sy'n berthnasol i'n cylch gwaith archwilio ac arolygu, megis Awdurdodau Lleol a Chyrff y GIG, ystyried unrhyw bryderon a godir gan eu gweithwyr o ddifrif ac y dylai fod ganddynt bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i'w gweithwyr eu dilyn. Dylai eich cyflogwr wrando ar unrhyw bryderon y mae'r rhai sy'n gweithio iddo'n eu mynegi, a gweithredu yn eu cylch. Gall hyn gywiro beth bynnag a arweiniodd at eich pryderon yn gyflym ac yn syml, gan olygu nad oes angen i chi eu mynegi wrth unrhyw un arall.

Serch hynny, rydym hefyd yn sylweddoli bod amgylchiadau a allai ei gwneud yn anodd mynegi pryder wrth eich cyflogwr, er enghraifft, os yw eich pryder yn ymwneud â gweithredoedd y rheini sy'n gyfrifol am reoli, neu os nad yw'r cyflogwr wedi delio'n briodol â phryderon cynharach am yr un broblem. Pan na fyddwch yn teimlo y gallwch fynegi eich pryder wrth eich cyflogwr, gallwch ei fynegi wrth un ohonom ni, ar yr amod ei fod yn berthnasol i'n cylch gwaith ei ystyried a'ch bod yn credu bod eich datgeliad yn wir i raddau helaeth. Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru statws cyfreithiol fel 'personau dynodedig' yng nghyswllt datgeliad chwythu'r chwiban, ond nid yw Estyn yn 'person dynodedig'. Felly os byddwch yn mynegi eich pryder wrth Estyn, efallai y bydd yn eich cyfeirio at un o bartneriaid Arolygu Cymru. Mae gan bob un o'r pedwar aelod o Arolygu Cymru drefniadau ar waith i sicrhau y gall gweithwyr fynegi pryderon yn hyderus wrth aelod o staff profiadol ac wedi'i hyfforddi.

Gallwch siarad am eich pryder gydag un ohonom ni ar unrhyw adeg, a dylai'r daflen hon eich helpu i ddeall pryd a sut y gallwch wneud hynny, a beth fydd yn digwydd wedyn. Mae ein hadran cysylltiadau ar ddiwedd y daflen yn nodi gyda phwy y dylech siarad, gan ddibynnu ym mha sector y mae'r cyflogwr.

# Sut byddwn yn ymateb i'ch pryder

Byddwn yn gwranddo ar eich pryder ac yn esbonio sut gallwn eich helpu. Os na fydd y mater yn rhywbeth y gallwn ei ystyried, gwnawn ein gorau i awgrymu sefydliadau eraill a allai eich helpu.

Efallai y bydd angen i ni rannu'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni am eich pryder, gan y gallai fod yn berthnasol i fwy nag un aelod o Arolygu Cymru.

Rydym yn sylweddoli y bydd amgylchiadau efallai pryd yr hoffech i ni beidio â datgelu pwy ydych chi. Os byddwch yn gofyn, ni fyddwn yn dweud pwy ydych chi heb eich caniatâd, oni bai fod cyfyngiadau neu rwymedigaethau cyfreithiol sy'n mynnu ein bod yn gwneud hynny (er enghraifft, pan fydd eich tystiolaeth yn awgrymu bod person sy'n derbyn gofal mewn perygl neu fod trosedd difrifol wedi'i gyflawni). Os felly, byddwn yn rhoi gwybod i chi os bydd rhaid i ni wneud hyn, ac y bydd hyn yn datgelu pwy ydych chi i gorff arall.

Os nad ydych eisiau i ni ddatgelu pwy ydych chi, dylech gadw mewn cof y gallai hyn olygu na fydd modd i ni ymchwilio yn llawn i broblem rydych chi wedi'i chodi (er enghraifft, os bydd eich tystiolaeth chi'n hanfodol i'r mater, ac na fyddai modd i unrhyw un arall ei chyflwyno).



Byddwn yn dewis un o'r dulliau sydd ar gael i ni i weithredu ynghylch y wybodaeth y byddwch yn ei datgelu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cadw nodyn yn ein cofnodion fel rhan o'n gwybodaeth gyffredinol ac asesiad risg am lle rydych chi'n gweithio; neu
- cysylltu â'r sefydliad rydych chi wedi cysylltu â ni yn ei gylch i ofyn am ragor o wybodaeth; neu
- ystyried eich pryderon fel rhan o archwiliad neu ymchwiliad; neu
- edrych yn fwy cyffredinol fel rhan o archwiliad neu ymchwiliad ehangach.

Lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn rhoi gwybod i chi beth rydym yn bwriadu ei wneud a beth oedd y canlyniad. Efallai na fydd modd i ni ddweud popeth wrthydych chi os bydd gennym hefyd ddyletswydd cyfrinachedd i unrhyw un arall sydd ynghlwm.

Cofiwch nad oes raid i ni ymchwilio i bob pryder a fynegir i ni. Dim ond ar sail ein pwerau a'n dyletswyddau cyfreithiol y gallwn weithredu. Mae gennym hefyd ddisgresiwn o ran a ydym am gymryd camau pellach i archwilio neu ymchwilio, gan ddibynnu ar a fyddai hyn yn ffordd effeithiol o ddefnyddio ein hadnoddau ai peidio.

Mae hefyd yn bwysig nodi nad oes modd i ni bennu na mynegi barn ynghylch a gaiff datgeliad ei warchod o dan PIDA ai peidio. Ni allwn ddod yn rhan o anghydfodau cyflogaeth nac achosion cyflogaeth ffurfiol ac ni allwn ddarparu cyngor cyfreithiol. Nid oes gennym rym i ddisgyblu unrhyw unigolion na dwyn erlyniadau troseddol.

# Rhagor o gyngor ac arweiniad

Os ydych chi'n ystyried mynegi pryder ac nad ydych yn siŵr beth yw eich hawliau cyfreithiol, gallwch gael rhagor o gyngor ac arweiniad o sawl ffynhonnell. Mae'r rhain yn cynnwys elusennau fel Public Concern at Work, undebau a chyrrff proffesiynol, a chyfreithwyr.

Gallwch lawrlwytho copi am ddim o [ganllaw arferion da](#) (yn Saesneg yn unig) ar chwythu'r chwiban i weithwyr a chyflogwyr yn y sector cyhoeddus o wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

- **Beth arall y dylwn ei wneud?** Cadw cofnod o'ch pryder ac unrhyw gamau rydych wedi'u cymryd i ddelio ag ef.
- **A oes unrhyw beth na ddylwn ei wneud?** Peidiwch â thorri'r gyfraith i gael gafael ar wybodaeth a'i chyflwyno i ni. Nid ydym yn disgwyl i chi ymchwilio i'ch pryderon eich hun; os byddwn yn penderfynu bod angen cymryd camau pellach, byddwn ni yn trefnu hynny.
- **Nid wyf yn gyflogai; a oes modd i mi chwythu'r chwiban?** Mae'r gyfraith yn cynnwys pob gweithiwr, gan gynnwys contractwyr neu staff asiantaeth dros dro. Nid yw'n cynnwys gweithwyr hunangyflogedig didwyll (ac eithrio yn y GIG neu GIG Cymru) na gwirfoddolwyr. Os ydych chi'n gweithio i is-gontractwr, nid yw'r amddiffyniad yn berthnasol i chi i'r graddau os bydd eich cyflogwr yn eich erlid neu'n eich diswyddo. Os ydych chi'n ddefnyddiwr gwasanaethau neu'n talu'r dreth gyngor, er enghraifft, gallwch barhau i fynegi eich pryderon wrthym, ond i weithwyr y mae'r amddiffyniad yn erbyn niwed o dan PIDA yn berthnasol.
- **Mae cymal cyfrinachedd yn fy nghontract sy'n nodi na chaf drafod fy ngwaith gydag unrhyw un y tu allan i'r gwaith; a yw hynny'n golygu na allaf fynegi fy mhryderon?** Nac ydy, mae'r gyfraith yn nodi'n glir bod cymalau cyfrinachedd sydd wedi'u llunio i'ch rhwystro chi rhag mynegi pryderon a fyddai'n rhai wedi'u gwarchod yn annilys.
- **A oes modd i nifer o bobl chwythu'r chwiban gyda'i gilydd?** Oes, nid oes angen darparu gwybodaeth yn unigol.

# Rhagor o Gysylltiadau

Cysylltwch â'r aelod perthnasol o Arolygu Cymru isod ar sail y maes mae eich pryder yn berthnasol iddo:

Os yw eich pryder yn ymwneud â'r canlynol:	Pwynt cyswllt:	Cyfeiriad gwefan:
Ymddygiad priodol yng nghyd-destun busnes cyhoeddus, gwerth am arian, twyll a llygredd o ran y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.	Rheolwr Chwythu'r Chwiban Swyddfa Archwilio Cymru 24 Heol y Gadeirlan Caerdydd CF11 9LJ  Ffôn: 029 2032 0522  E-bost: <a href="mailto:whistleblowing@audit.wales">whistleblowing@audit.wales</a>	<a href="http://www.archwilio.cymru">www.archwilio.cymru</a>
Y broses o ddarparu gofal iechyd gan gyrrff y GIG yng Nghymru ac ar eu cyfer.	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  Parc Busnes Rhyd-y-car Merthyr Tudful CF48 1UZ  Ffôn: 0300 062 8163  E-bost: <a href="mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk">hiw@wales.gsi.gov.uk</a>	<a href="http://www.hiw.org.uk">www.hiw.org.uk</a>



<p>Os yw eich pryder yn ymwneud â'r canlynol:</p>	<p>Pwynt cyswllt:</p>	<p>Cyfeiriad gwefan:</p>
<p>Gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru, o warchodwyr plant a meithrinfeydd i gartrefi i bobl hŷn.</p>	<p>Prif Arolygydd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru          Parc Busnes Rhyd-y-car          Merthyr Tudful          CF48 1UZ          Ffôn: 0300 062 8800          E-bost: <a href="mailto:cssiw@wales.gsi.gov.uk">cssiw@wales.gsi.gov.uk</a></p>	<p><a href="http://www.cssiw.org.uk">www.cssiw.org.uk</a></p>
<p>Ansawdd a safonau ym maes addysg a darparwyr hyfforddiant yng Nghymru.</p>	<p>Estyn          Llys Angor          Heol Keen          Caerdydd          CF24 5JW          Ffôn: 029 2044 6446          E-bost: <a href="mailto:enquiries@estyn.gov.uk">enquiries@estyn.gov.uk</a></p>	<p><a href="http://www.estyn.gov.wales">www.estyn.gov.wales</a></p>



# Public Concern at Work

Mae **Public Concern at Work** yn cynnig cyngor cyfrinachol am ddim i bobl sy'n poeni am droseddau, perygl neu ddrwgweithredu yn y gwaith.

Public Concern at Work  
CAN Mezzanine  
7-14 Great Dover Street  
Llundain  
SE1 4YR

Gwefan: [www.pcaw.org.uk](http://www.pcaw.org.uk)

Llinell Cyngor ar Chwythu'r Chwiban: 020 7404 6609

Ymholiadau cyffredinol: 020 3117 2520

E-bost: Ymholiadau'r DU: [whistle@pcaw.org.uk](mailto:whistle@pcaw.org.uk)

# Sefydliadau adolygu a rheoleiddio allanol eraill (Personau Dynodedig)

Os byddwch yn penderfynu chwythu'r chwiban gyda pherson dynodedig yn hytrach na'ch cyflogwr, mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod wedi dewis y person neu'r corff cywir i drafod eich mater. Gallwch lawrlwytho rhestr o Personau Dynodedig gan yr [Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau](#). Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys disgrifiad cryno o'r materion y gallwch eu cofnodi gyda phob person dynodedig.

Yn ogystal â hyn, gallech hefyd chwythu'r chwiban gyda'ch cynghorydd cyfreithiol, wrth gael cyngor cyfreithiol, neu gydag aelod o Dŷ'r Cyffredin ynghylch unrhyw fater a nodir yng Ngorchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Dynodedig) 2014. Gallwch gael manylion cyswllt unrhyw Aelod Seneddol ar [wefan Senedd y DU](#).

Gellir cael rhagor o wybodaeth am chwythu'r chwiban ar wefan [GOV.UK](#).



Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

